*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 666 (Cy. 73)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau) a Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Mawrth 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *17 Mawrth 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *7 Ebrill 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), a thrwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 2(2), 7(2), 12(2) a 17(2) o Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn—

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau) a Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 7 Ebrill 2014 2014.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

## RHAN 1

## Symiau at Anghenion Personol

### Y symiau y mae eu hangen at anghenion personol

**2.** Y swm y mae awdurdod lleol i ragdybio bod ei angen ar berson at ei anghenion personol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 yw £25.00 bob wythnos.

(**1**) 1948 p. 29.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) a (5) o'r Ddeddf Cymorth Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
(**3**) 2010 mccc 2.

**Dirymu**

**3.** Mae rheoliad 2 o Reoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) a Chymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2013(**4**) wedi ei ddirymu.

# RHAN 2

## Terfyn Cyfalaf

**Diwygio'r Terfyn Cyfalaf**

**4.** Ym mharagraff (2) o reoliad 20A (Terfyn Cyfalaf – Cymru) o Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**5**), yn lle'r ffigur "£23,750" rhodder y ffigur "£24,000".

# RHAN 3

## Diwygiadau i'r Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol

**Diwygio Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011(**6**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(2) Yn rheoliad 5 (uchafswm rhesymol y ffi am wasanaeth)—

(a) ym mharagraff (2) yn lle'r ffigur "£50" rhodder y ffigur "£55.00", a

(b) ym mharagraff (3) yn lle'r ffigur "£50" rhodder y ffigur "£55.00".

(3) Yn rheoliad 14(4) (proses yr asesiad modd)—

(a) yn is-baragraff (d) ar ôl y geiriau "Lluoedd Arfog" mewnosoder—

"a'r Lluoedd Wrth Gefn"; a

(b) ar ddiwedd is-baragraff (d) hepgorer "a" ac ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

"(da) diystyru £10 o unrhyw daliad incwm gwarantedig goroeswr y cyfeirir ato yn erthygl 29(1)(a) o Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Digolledu) 2011(**7**) ac, os yw swm y taliad hwnnw wedi ei leihau i lai na £10 gan bensiwn sy'n dod o fewn erthygl 39(1)(a) o'r Gorchymyn hwnnw, gymaint o'r pensiwn hwnnw na fyddai, ynghyd â swm unrhyw daliad incwm gwarantedig goroeswr sydd wedi ei ddiystyru, yn fwy na £10; ac".

**Diwygio Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011(**8**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(2) Yn rheoliad 5 (yr uchafswm rhesymol o ad-daliad neu gyfraniad sy'n daladwy)—

(**4**) O.S. 2013/631 (Cy. 68).
(**5**) O.S. 1992/2977.
(**6**) O.S. 2011/962 (Cy. 136).
(**7**) O.S. 2011/517.
(**8**) O.S. 2011/963 (W. 137).

(a) ym mharagraff (1) yn lle'r ffigur "£50" rhodder y ffigur "£55.00", a

(b) ym mharagraff (2) yn lle'r ffigur "£50" rhodder y ffigur "£55.00".

(3) Yn rheoliad 16(4) (proses yr asesiad modd) ar ddiwedd is-baragraff (d) hepgorer "a" ac ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

"(da) diystyru £10 o unrhyw daliad incwm gwarantedig goroeswr y cyfeirir ato yn erthygl 29(1)(a) o Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Digolledu) 2011 ac, os yw swm y taliad hwnnw wedi ei leihau i lai na £10 gan bensiwn sy'n dod o fewn erthygl 39(1)(a) o'r Gorchymyn hwnnw, gymaint o'r pensiwn hwnnw na fyddai, ynghyd â swm unrhyw daliad incwm gwarantedig goroeswr sydd wedi ei ddiystyru, yn fwy na £10; ac".

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

14 Mawrth 2014

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 ("y Rheoliadau Asesu Adnoddau"), Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Penderfynu Ffioedd") a Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol"). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu rheoliad 2 o Reoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) a Chymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013").

Mae'r Rheoliadau Asesu Adnoddau yn ymwneud ag asesu gallu person i dalu am lety a drefnir gan awdurdodau lleol o dan Ran 3 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

Mae adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth asesu gallu person i dalu am lety o dan Ran 3 o'r Ddeddf, ragdybio, yn niffyg anghenion arbennig, fod angen swm rhagnodedig ar berson at ei anghenion personol bob wythnos. Mae rheoliad 2 yn rhagnodi £25.00 fel y swm y mae ei angen at anghenion personol o dan adran 22(4).

Mae rheoliad 3 yn dirymu rheoliad 2 o Reoliadau 2013 a oedd gynt yn rhagnodi'r swm at anghenion personol o dan adran 22(4).

Mae rheoliad 4 yn diwygio'r Rheoliadau Asesu Adnoddau fel y daw'r terfyn cyfalaf a nodir yn rheoliad 20A yn £24,000. Y terfyn cyfalaf yn rheoliad 20A yw uchafswm y cyfalaf y caniateir i berson ei gael cyn i'r person hwnnw ddod yn atebol i dalu am gost unrhyw lety a drefnir o dan Ran 3 o'r Ddeddf, neu i gyfrannu o gyfalaf tuag at y gost honno.

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau Penderfynu Ffioedd a rheoliad 5 o'r Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol yn rhagnodi yn eu trefn uchafswm rhesymol y ffi am wasanaeth a'r uchafswm rhesymol o ad-daliad neu gyfraniad sy'n daladwy am y gwasanaeth hwnnw. Mae rheoliadau 5(2) a 6(2) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Penderfynu Ffioedd a'r Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol fel y daw yr uchafswm a nodir yn y naill a'r llall o'r Rheoliadau yn £55.00.

Mae rheoliadau 5(3) a 6(3) yn diwygio rheoliadau 14(4) ac 16(4) o'r Rheoliadau Penderfynu Ffioedd a'r Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol yn eu trefn i gynnwys diystyru'r £10 gyntaf o daliad incwm gwarantedig goroeswr a wneir o dan Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Digolledu) 2011. Mae taliad incwm gwarantedig goroeswr yn daliad a wneir tan farwolaeth priod, partner sifil neu ddibynnydd mewn oed sy'n goroesi. Mae'r diwygiad hwn wedi ei wneud er mwyn sicrhau nad yw'r asesiadau modd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau dibreswyl yn llai ffafriol na'r asesiadau modd o dan Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 i bobl sy'n cael gofal preswyl.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyflawni Polisïau ar gyfer Plant ac Oedolion, Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.